y dinesydd

Tachwedd/Rhagfyr 2000 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 259

# NEWYDDION DA A DDAETH I'R FRO

Croesawyd y Gwir Anrhydeddus Mr Rhodri Morgan i agoriad swyddogol Ysgol Gyfun Bro Morgannwg Ddydd Llun, 13 Tachwedd. Daeth ffrindiau, cefnogwyr a swyddogion yhghyd i ddathlu dyfodiad Ysgol Gyfun Gymraeg gyntaf Bro Morgannwg. Fe ymunodd Mr Alun Daniel, Cadeirydd y Llywodraethwyr, y Cyngorydd Jeff James, Arweinydd y Cyngor, a Dr Dylan Jones, y Pennaeth, â Mr Rhodri Morgan i groesawu'r ysgol newydd.

Dywedodd Mr Morgan ei bod hi'n bleser pur i weld cymaint o unigolion amlwg bywyd cyhoeddus Cymru wedi casglu ynghyd i ddathlu sefydlu cartref i blant y Fro. Cyfeiriodd at y plant drwy ddweud mai hwythau oedd ein dyfodol a bod cyfle gwych i greu bywyd gwell drwy weithio mewn partneriaeth. Roedd y Cyngorydd Jeff James hefyd yn falch o'i gyfle i ddymuno'r gorau i bawb a oedd yn rhan o'r fenter gyffrous hon. Canmolodd y gwaith clodwiw a wnaed yn barod er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn barod ym mis Medi er mwyn agor ei drysau i 123 o ddisgyblion y Fro.



*Geraint Evans, Jeff Jones, Dr Dylan Jones, Rhodri Morgan ac Alun Daniel*

Roedd hyn oll yn glod i staff yr ysgol, i'r llywodraethwyr, ac i swyddogion y cyngor.

Ar ran yr ysgol manteisiodd Mr Alan Daniel ar y cyfle i ddiolch i bawb a fu'n brwydro dros y blynyddoedd i sicrhau datblygiad Addysg Gymraeg yn yr ardal. Cydweithredu a phontio oedd thema anerchiad Dr Dylan Jones. Defnyddiwyd pont fel rhan amlwg o fathodyn yr ysgol ac hefyd mae lliwiau gwyrdd a glas yr ysgol yn cyfleu'r syniad o uno'r wlad â'r dref. Roedd yntau â'r staff yn awyddus i sicrhau mai nid ysgol un carfan o'r gymdeithas mo hon, ond yn hytrach un a fyddai'n cynnig cyfle i bawb i gyflawni ei botensial. Dioddefodd disgyblion, ein hysgolion cyfrwng Cymraeg ddigon yn sgil rhagfarn a drwgdybiaeth ac nid oedd am i Ysgol y Fro fabwysiadu arferion dinistriol y gorffennol. Cyfrifoldeb mawr oedd creu ysgol o'r newydd ond roedd yn gyfle gwych i adeiladu sefydliad a adlewyrchai hyder a thalent Cymru'r Mileniwm newydd.



*Disgyblion Ysgol Bro Morgannwg*

## Diwrnod Hanesyddol yn y Barri

Cafwyd diwrnod hanesyddol yn y Barri ar 5 Medi pan agorodd drysau Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg am y tro cyntaf i'w 123 disgybl cyntaf, a'r rheini'n dod o ddwy ysgol gynradd Gymraeg y Barri, Ysgol Pen-y-garth, Penarth ac Ysgol Iolo Morganwg, Y Bont-faen. Roedd deg o staff i groesawu'r disgyblion, ynghyd â'r prifathro, Dr Dylan Jones, a'r ddirprwy brifathrawes, Rhian Griffiths. Derbyniwyd neges gan Dr Gwynfor Evans, cyn-Lywydd Plaid Cymru a chyn-ddisgybl yn hen Ysgol Ramadeg y Barri, yn dymuno'n dda i'r ysgol newydd.

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n darllenwyr oll**

# Y Dinesydd

**Tach./Rhag. 2000, Rhif 258.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Golygyddion y rhifyn hwn:
Gwilym E. Roberts a Garwyn Davies

**NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.**

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Ionawr/Chwefror 2001 at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 18 Ionawr:**
Mr Gwilym E. Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbina, Caerdydd (Ffôn: 2069 3254) **neu**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Rd, Penarth, (Ffôn: 2070 8253)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754).

**DOSBARTHU**

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

**HYSBYSEBION**

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270; E-bost: MennaGwyn@aol.com)

**CYFRANIADAU ARIANNOL**

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ...................................................................

.............................................. Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ...................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

feiriad: ......................................................................


.............................................. Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ...................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 19** **Tach./Rhag. 2000**



**Ar Draws**

1. Can darn o bren ac un wy wedi torri yn creu caer yn y gororau (6,1,4)
8. Gwastad o'r dde a'r chwith (5)
9. Cymysgu taffi du'n gywir (7)
10. Mordwyo o gwmpas a chylchu (7)
11. Mae'n gwawrio, rwy'n barnu (5)
12. Y sŵn fu yn ein gwneud yn fywiog (6)
14. Fel fflam can polyn (6)
18. Ar yn ail y barna frawd ysgeler (5)
19. Ie! Colin wedi drysu ac ymneilltuo (7)
21. A ddaw Alan byr oddi yma? (2,5)
23. 'Un ___ fach cyn elo'r haul i'w orwel (Waldo) (5)
24. Sefydlu rhywbeth ffug (5)
25. 'Mi brynaf fwthyn unig
Heb ddim _ __ _ __' (Cynan) (1,5,2,3)

**I Lawr**

1. 'Adenydd ___ pe cawn
Ehedwn a chrwydrwn ymhell' (T.W.) (7)
2. 'Craig ___ mewn tymhestloedd
Craig a ddeil yn ngrym y lli' (S.J.G.) (7)
3. Pum deg wedi troi o gwmpas yn dannod (5)
4. Dyro im ryw fodd i loetran (6)
5. 9 hebddot ti yn cael oes digalon, cymysglyd ac anlwcus (7)
6. Yr arch-adeiladydd mewn tipyn o argyfwng (3)
7. Tiwtor heb orffen troi a chymoni (5)
13. Tra bo Luned yn dawnsio maent yn ymwneud â'i gilydd (7)
15. Hanner can mewn ffrydiau anesmwyth (7)
16. Llestr gwag o dderw yn canu fel ceiliog (7)
17. Tu fewn i Emrys ceir deunydd y corff yn codi (6)
18. A geir dysgeidiaeth mewn neuadd ysgol? (5)
20. Celfyddyd yn colli'r dydd a cheisio amser cyfaddas (5)
22. _ __ ben bid bont (3)

**Atebion Croesair 18**

**Ar draws:** 1. Asgellog; 5. Cranc; 8. Mawlgan; 9. Neidr; 10. Llandefalle; 12. Chwa; 13. Iachad; 17. Cip; 19. Awyrennwr; 21. Lawnt; 22. Gwaelod; 24. Gosod; 25. Golchwyd.

**I lawr:** 1. A'r mellt; 2. Grwgnach; 3. Llog; 4. Genfa; 5. Cynheidre; 6. Afiach; 7. Cariad; 11. Eliffantod; 14. Dyn glew; 15. Ecoleg; 16. Credyd; 18. Powys; 20. Ysgog; 23. All.

**Cystadleuaeth Tach./Rhag. 2000**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 31 Rhagfyr.

## Apêl *Y Dinesydd*

Mae'r Apêl am gymorth i sicrhau llwyddiant ariannol *Y Dinesydd* yn dal i ddenu mwy o ymateb a daeth y cyfraniadau yma i law yn ddiweddar ers cyhoeddi'r rhifyn diwethaf o'r Dinesydd gan Gapel Minny Street, Cymdeithas Rieni ac Athrawon Glantaf, a Merched y Wawr Rhadur ac ambell unigolyn, gan wneud cyfanswm o £850 hyd yn hyn. Diolch o galon i bawb am eu haelioni a'u cefnogaeth ymarferol i'r achos.

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 8 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson Nadoligaidd yng nghwmni Myfanwy Jarman a Mallt Anderson, yn festri Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 9 Rhagfyr**
Ffair Nadolig Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Yr Eglwys Newydd, yn dechrau am 11 a.m.
**Llun, 11 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Arferion Traddodiadol y Nadolig' gan Emma Lyle, Amgueddfa Werin Cymru, yn festri Eglwys Minny Street, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 12 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson Nadoligaidd yng nghwmni Mr a Mrs Islwyn Jones, yn festri Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Sgwâr y Brenin, am 7.15 p.m.
**Mercher, 20 Rhagfyr**
Parti Nadolig Cymdeithas Tŷ'r Cymry, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon am 8 p.m.
**Sul, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Oedfa Gannwyll yng nghapel Bethel, 11.00 pm
**Llun, 8 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Hen Drysorau' gan Hywel Morris, yn festri Eglwys Minny Street, am 7.30 p.m.
**Iau, 11 Ionawr**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, Gwesty'r Phoenix, Llanisien, 7.00 pm erbyn 7.30 pm. Noson o dan ofal Hannah Roberts. Cysyllter â 2065 7730 neu 2062 4878.
**Gwener, 12 Ionawr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan y Parch. Maxwell Evans, yn festri Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Llun, 15 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Teithio'r Byd' yng nghwmni Rhiain Phillips, yng nghapel Bethany, Rhiwbina am 7.30 p.m.
**Mawrth, 16 Ionawr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Sgwrs ar y Theatr Newydd, Caerdydd gan Arthur Morris Jones, yn festri Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Sgwâr y Brenin, am 7.15 p.m.
**Mercher, 17 Ionawr**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Gareth Kiff, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon am 8 p.m.
**Gwener, 19 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Ewtopia: Cyfandir Dychymyg y Cymry' gan yr Athro M. Wynn Thomas, Abertawe, am 7 p.m., yn Ystafell X/0.04, Estyniad Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd.
**Gwener, 2 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: Noson Deyrnged i Galedfryn yng ngofal y Parch. Huw Ethall, yn festri Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.
**Gwener, 2 Chwefror**
Noson yng nghwmni Derec Brown a'i Fand, Clwb Trydan, 8 pm
**Llun, 5 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Tir Iarll.' Sgwrs gan Eirian Edwards, yng nghapel Bethany, Rhiwbina am 7.30 p.m.
**Mawrth, 6 Chwefror**
Darlith Goffa Islwyn, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: Darlith gan Daniel Huws, cyn-Geidwad Adran y Llawysgrifau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, am 5.15 p.m. yn Ystafell X/0.04, Estyniad Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd.
**Gwener, 9 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan Dr R. Alun Evans, yn festri Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Llun, 12 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Sgwrs gan Bethan Lewis, Amgueddfa Rufeinig Caerleon, yn festri Eglwys Minny Street, am 7.30 p.m.
**Gwener, 16 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig' gan Dr Huw Walters, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, am 7 p.m., yn Ystafell X/0.04, Estyniad Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd.
**2 Mawrth**
Twmpath/Ceilidh, Clwb Trydan, 8 pm

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*
*Mae'r Calendr hefyd ar safle we'r Dinesydd: http://www.dinesydd.uklinux.net/*

## Llongyfarchiadau

- i'r Athro J. Gwynfor Jones o Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd, ar ddyfarnu iddo radd D.Litt. Prifysgol Cymru, y radd uchaf y gall y Brifysgol ei dyfarnu.
- i Dr Rhian Goodfellow (Fenn) ar ei phenodiad yn Ymgynghorydd mewn Rhewmatoleg yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Uwch-ddarlithydd yn yr Adran Rhewmatoleg yng Ngholeg Meddygaeth Cymru. Mae hi'n dechrau yn ei swyddi newydd ym mis Ionawr 2001 ar ôl dod yn ôl o Adelaide, Awstralia, lle mae hi a'i gŵr, Neil a'u merch fach Nia yn treulio blwyddyn yn Ysbyty Flinders, Adelaide.
- i Dr Pwt Evans o Ysgol Peirianneg Prifysgol Caerdydd ar gael ei ddyrchafu'n Ddarllenydd.
- i Meic Stephens yr Eglwys Newydd ar ennill Doethuriaeth yn y Celfyddydau.
- i Dr Geraint Stanley Jones ar ei ethol yn un o Is-lywyddion y Coleg Cerdd a Drama. Bu'n Gadeirydd y Coleg o 1989 tan fis Gorffennaf 2000.
- i Gwilym Boore, Yr Eglwys Newydd ar ei briodas â Non Tudur Williams yng Nghapel y Groes, Wrecsam, ar 21 Hydref. Byddant yn ymgartrefu yng Nghaerdydd.
- i Guto Harri, Yr Eglwys Newydd ar ei briodas â Shireen Jilla mewn eglwys ar Stâd Tŷ Babington yng Ngwlad yr Haf ar 27 Hydref. Gweinyddwyd y seremoni briodasol gan yr offeiriad lleol a'r Esgob Daniel Mullins. Byddant yn ymgartrefu yn Llundain.
- i David ac Elen Kelly (gynt Pierce Lewis Caerdydd) ar enedigaeth eu hail ferch Erin Hana yn Ysbyty Whitlington, Llundain ar 4 Tachwedd - wyres arall i Richard a Bethan Lewis Llandaf a nith arall i Siôn Pierce Lewis.
- i Bethan Morgan y Barri a chyn ddisgybl yn Ysgol Glantaf ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth fowlio rhyngwladol i bobl ifanc yn Jersey ym mis Tachwedd. Mae ei rhieni John ac Ann a'i brawd Robert yn fowlwyr brwd hefyd ac yn chwarae yng Nghlwb Barri Athletig. Dechreuodd Bethan chwarae pan oedd hi'n 9 oed. Cynrychiolodd Gymru am y tro cyntaf pan oedd hi'n 13 oed.
- Llongyfarchiadau i Tanni Grey-Thompson yr athletwraig gadair-olwyn o Gaerdydd ar ennill 4 medal aur yn y rasys cadair-olwyn, 100, 200, 400 ac 800 medr yn y Paralympics yn Sydney Awstralia.
- i Geraint Tilsley, Bae Caerdydd ar ei benodiad fel cyfreithiwr gyda'r cwmni Edwards Geldard lle bydd e'n canolbwyntio ar gyfreithiau cwmnïau a masnach.
- i'r arlunydd Elfyn Lewis, gynt o Borthmadog ond yn byw bellach yng Nhaerdydd, ar dderbyn cymorthdal gwerth £1200 gan Gyngor Celfyddydau Cymru i'w alluogi ymweld ag Efrog Newydd i gyfarfod â pherchnogion orielau celf a gwneud gwaith ymchwil a chreu cysylltiadau. Gwaith yr arlunydd hwn sy ar flaen CD's Catatonia ac mae enghreifftiau o'i waith i'w gweld mewn orielau yn Abertawe, Caerdydd, Penarth a Machynlleth.
- i Efa Gruffudd ar gael ei phenodi yn Gyfarwyddwr Datblygu newydd yr Urdd a bydd hi'n gyfrifol am godi nawdd tuag at waith y mudiad. Daw Efa o Dreforus ger Abertawe a chyn ei phenodiad bu'n Swyddog Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru. Gellwch gysylltu â hi drwy ffonio Canolfan yr Urdd yn Heol Conwy (2080 3350) neu drwy'r e-bost ar efa@urdd.org

**Cydymdeimlwn**

- â theulu y ddiweddar Anne Goodwin Wilkins, Cynwyl Elfed a fu farw ar 1 Hydref. Bu'n athrawes yng Nghaerdydd am flynyddoedd ac yn weithgar gydag UCAC a'r Urdd cyn dychwelyd i'r wlad i fyw.
- â Don Wilson a'r teulu ar farwolaeth ei wraig Mary Wilson yn Llangrannog ar 30 Medi. Bu teulu'r Wilsons yn byw yn Rhiwbina ac yn cadw siop bapur newydd y drws nesa i Fanc y Midland am flynyddoedd cyn symud i fyw yn Llangrannog.
- â theulu y diweddar Owen Elias Roberts (O.E.) Rhadur a fu farw yn ysbyty'r Brifysgol Caerdydd yn 92 oed ar 14 Hydref. Yr oedd O.E. yn un o'r rhai cyntaf i 'sgrifennu'n helaeth am bynciau gwyddonol yn Gymraeg. Enillodd Fedal Rhyddiaith Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth yn 1952 a bu colofn wyddonol ganddo yn "Y Cymro" am flynyddoedd. Fe'i anrhydeddwyd gan Brifysgol Cymru yn 1972. Wedi ymddeol aeth o a'i briod i fyw yng Nghricieth cyn symud i Gaerdydd i fod yn agosach at eu merch Gwenan a'i gŵr Wyndham Richards, Rhadur.
- â theulu a ffrindiau agos Elizabeth Sylvia Evans, Yr Eglwys Newydd a fu farw yn 91 oed ar 16 Hydref. Bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys Minny Street.
- â John, Janet a Helen Williams Rhiwbina ar farwolaeth eu mam ar 9 Tachwedd yn 87 oed yn Ysbyty'r Brifysgol. Roedd yn enedigol o Rhymni.
- â theulu'r diweddar D J Davies, Y Tyllgoed, cyn weithiwr yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol yn 86 oed ar 16 Tachwedd. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 24 Tachwedd.
- ag Emyr ac Euros Edwards a'r teulu oll ar farwolaeth eu mam Margaret Tydfil Edwards, gweddw'r Brifardd J M Edwards, Y Barri, yn 96 oed. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 23 Tachwedd.
- ag Ashwynne Davies a'r teulu, Bryn Iwan, Sir Gaerfyrddin, ar farwolaeth ei wraig Valmai yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin ar 15 Tachwedd. Bu'r teulu yn byw yn Rhiwbina am flynyddoedd cyn symud nôl i'r wlad.

Bu farw'r bardd enwog R S Thomas yn mhentre Pentrefelin ger Cricieth ar 25 Medi. Cafodd ei eni yng Nghaerdydd i rieni di-Gymraeg yn 1913 ond erbyn iddo gyrraedd pump oed roedd y teulu wedi symud i fyw i Gaergybi. Graddiodd yn y clasuron yng Ngholeg y Brifysgol Bangor a chafodd ei ordeinio yn offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru yn 1936. Roedd yn hoff o fyw yn y wlad a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn gweinidogaethu mewn plwyfi gwledig yma a thraw yng Nghymru. Dysgodd Gymraeg fel oedolyn a chefnogodd yr iaith a'i diwylliant yn frwd. Cynigiwyd ei enw i dderbyn gwobr Nobel am lenyddiaeth yn 1996. Cyhoeddodd hunangofiant yn y Gymraeg o'r enw *Neb*. Mae Cymru a'r byd wedi colli enaid unigryw.

Bu farw un o Lywyddion Anrhydeddus Mudiad Ysgolion Meithrin sef Syr Alun Talfan Davies, 87 oed mewn cartref nyrsio ym Mhenarth ar 11 Tachwedd. Bu'n QC, Bar Gyfreithiwr, gŵr busnes ac un o sefydlwyr Cwmni HTV. Cafodd ei eni yng Ngorseinon yn fab i weinidog hefo'r Presbyteriaid. Daeth yn fargyfreithiwr yn 1939 ac yn QC yn 1961. Bu'n gadeirydd Cronfa Trychineb Aberfan ac am gyfnod bu'n gadeirydd y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru. Cynorthwyodd hefo'i frawd, y diweddar Aneurin Talfan i sefydlu cwmni cyhoeddi Cymraeg Llyfrau'r Dryw yn Llandybie a bu'n Llywydd yr Eisteddfod Genedlaethol am dair blynedd. Nai iddo ydy Geraint Talfan Davies, cyn-reolwr BBC Cymru. Cydymdeimlir â Lyn, gweddw Syr Alun a'r plant yn eu colled.

# Newyddion

• Newydd ei chyhoeddi ydy cyfrol o chwe charol o'r enw *Carolau Caryl* gan Caryl Parry Jones ac yn addas ar gyfer perfformwyr mewn ysgol neu gapel neu eglwys. Ei phris ydy £4.95.

• Cyfrol arall sy' newydd ymddangos ydy nofel o'r enw *O'r Canol i Lawr* gan Emyr Huws Jones, Treganna. Un o Langefni ydy 'Ems' yn wreiddiol ond mae e wedi hen gartrefu yng Nghaerdydd. Bu'n gweithio mewn llyfrgell, siop ac amgueddfa yn ystod ei oes ond bellach cyfieithydd ar ei liwt ei hun ydy e. Mae'n gyn-aelod o'r 'Tebot Piws' a 'Mynediad am Ddim' ac yn un o brif gyfansoddwyr caneuon poblogaidd Cymru. Dewiswyd y gyfrol yn 'Nofel y Mis' dan gynllun hyrwyddo nofelau Cyngor Llyfrau Cymru. Pris y nofel ydy £6.95.

• Mae Gwasg Gomer, Llandysul newydd gyhoeddi nofel o'r enw *Boz a Sleimi* sy'n trafod bwlio mewn ysgol. Mari Williams ydy'r awdures ac ar hyn o bryd mae hi'n athrawes ran-amser y clasuron yn Ysgol Hywel Llandaf. Dyma'r seithfed cyfrol o'i heiddo i'w chyhoeddi gan Wasg Gomer.

Cyfrol arall gan Wasg Gomer sy newydd ei chyhoeddi ydy *Crogi ar Gam?* gan Roy Davies sy'n adrodd hanes llofruddiaeth y siopwraig Lily Volpert yn Stryd Bute yn 1952. Ei phris ydy £4.95.

• Mae Trystan Lewis, myfyriwr yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth yn gwneud gwaith ymchwil am Charles Clements (1898-1983), y cerddor amryddawn o Aberystwyth. Os oes rhywun â gwybodaeth am y cerddor hwn yna cysylltwch â Trystan trwy'r e-bost ar tt17@aber.ac.uk

• Ar hyn o bryd mae Cwmni Hyder yn y broses o adeiladu gwaith trin carffosiaeth a dŵr gwast mwyaf modern Ewrop yma yng Nghaerdydd yn ardal Tremorfa. Bydd y gwaith yn trin dŵr gwast poblogaeth Caerdydd a'r Cymoedd a phan y'i cwblheir yn y flwyddyn 2002 bydd y gwaith yn cyfrannu'n sylweddol at lanhau'r môr ar hyd arfordir De Cymru. Erbyn i'r gwaith agor bydd y gost o adeiladu'r gwaith tua £180 miliwn ond yn werth pob ceiniog o safbwynt glanhau'r amgylchedd.

• Dros y Sul, 6/7 Hydref cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Mudiad Ysgolion Meithrin yn y Ganolfan Chwaraeon, Gerddi Soffia. Daeth cynrychiolwyr o bob cwr o Gymru i'r cyfarfod ac ar y nos Wener cynhaliwyd noson o groeso swyddogol yng Nghlwb y BBC yn Llandaf gyda Caryl Parry Jones a'i Band yn darparu'r adloniant gyda chymorth dwy o ferched grŵp Eden a Steffan Rhys Williams. Cafwyd noson wych. Y prif siaradwyr yn ystod y cyfarfod ar y dydd Sadwrn oedd Iwan Guy, Cadeirydd Cenedlaethol Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (Cynradd) a Rhodri Williams, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cadeirydd Cenedlaethol newydd y Mudiad ydy Mai Roberts Dyffryn Ardudwy.

• Yn ystod yr Haf adnewyddwyd y llyfrgell yn Rhiwbina ac yn ystod yr ail agoriad dadorchuddiwyd plac er cof am Jack Jones yr awdur a fu'n byw yn Rhiwbina. Roedd gor-ŵyr i'r awdur yn bresennol yn y seremoni. Rhoddwyd y plac gan Ymddiriedolaeth Rhys Davies.

• Mae Cymdeithas Carnhuanawc (y Parch Thomas Price) yn bwriadu ail lythrennu ei garreg fedd ym mynwent Eglwys Cwmdu ger Crughywel er cof am y Cymro pybyr a brwd a fu'n gefn i'r iaith Gymraeg ar hyd ei oes. Derbynnir cyfraniadau gan Alan Jobbins, Ysgrifennydd y Gymdeithas, d/o 47 Heol Wingfield, Yr Eglwys Newydd, CF14 1NJ.

• Nos Sadwrn, 7 Hydref, cynhaliwyd cyngerdd o safon uchel yng Nghapel y Crwys, Richmond Road i godi arian at gronfa Eisteddfod yr Urdd 2001. Rhoddwyd y Cyngerdd gan Gôr Meibion Cwmbach a nifer o Ieuenctid Cerddorol y Capel. Emyr Wyn Roberts ydy arweinydd y côr ac yn enedigol o Lanelwy ond bellach yn byw yn Rhiwbina ac yn aelod yn y Crwys ac yn Gadeirydd Ysgol Feithrin Gymraeg Rhiwbina. Cafwyd canu ardderchog gan y côr dan ei arweiniad a chyflwynwyd eitemau gan Emyr Griffiths (piano), Elin Rowlands (telyn), Rhiannon a Bethan Evans (deuawd piano), Helen Espley (ffidil), Iestyn Shapey (ffliwt), Selyf Shapey (ffidil). Cyflwynydd y noson oedd Robin Jones.

• Nos Sul, 8 Hydref, yn Neuadd Dewi Sant cynhaliwyd Gŵyl o Fawl dan nawdd Pwyllgor Cerdd Eisteddfod yr Urdd. Roedd y neuadd yn llawn a chafwyd noson i'w chofio. Arweinydd y noson oedd Alun Guy, gyda Richard Elfyn Jones wrth yr organ a'r cyflwynydd oedd Huw Llywelyn Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith. Cafwyd unawd ar y piano gan Siôn Trefor (Ysgol Plasmawr), canodd parti bechgyn Glantaf a pharti canu merched Ysgol Melin Gruffydd yn ogystal â chyfraniad gan Gôr Undebol oedd yn cynnwys pedwar côr sef Merched Canna, Côr Caerdydd, Côr y Philarmonic a Chôrdydd, a chanwyd nifer o emynau hen a newydd gan y gynulleidfa fawr o rieni, a ffrindiau'r achos.

• Trefnodd Bwyllgor Codi Arian Eisteddfod yr Urdd yn y Mynydd Bychan gyngerdd yn Ysgol Glantaf ar nos Wener, 10 Tachwedd. Cyflwynwyd y noson gan Arfon Haines Davies gyda Chôr Merched Canna a Chôr Cymysg Côrdydd yn cyfrannu eitemau a'r unawdwyr oedd Heather Jones a Rhian Owen.

• Cafwyd llwyddiant i noson a drefnwyd yn Neuadd Llanofer Treganna gan Is-bwyllgor Llefaru a Drama, Eisteddfod yr Urdd, 2001 i godi arian at gronfa'r Eisteddfod. Daeth tyrfa fawr ynghyd a mwynheuwyd y noson yn fawr gan bawb.

• Cofiwch y cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Ninbych y flwyddyn nesa a bod angen pob ceiniog arnyn nhw i'w chynnal a felly byddai rhodd fawr neu fân yn dderbyniol iawn. Dylid anfon eich cyfraniad yn daladwy i "Eisteddfod Genedlaethol Sir Dinbych a'r Cyffiniau" at Adran Gyllid Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5WU.

• Cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel y Crwys dan nawdd Eglwys Bresbyteraidd Cymru Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg ar 19 Tachwedd ar thema Cymru - Cyd-ddyn - Crist. Yr arweinydd oedd Alun Guy a'r cyfeilydd oedd Martin Jones a chyfranwyd eitemau gan Gôr Ysgol Plasmawr a'r actor Huw Garmon. Gwnaed casgliad ymadawol tuag at Eisteddfod yr Urdd 2001.

• Cynhaliwyd Sioe Ffasiynau yn Neuadd y Ddinas, Parc Cathays nos Lun, 23 Tachwedd a'r elw at Eisteddfod yr Urdd 2001. Siop "Pleser" Pontarddulais oedd yn arddangos a threfnwyd y noson gan Eleri Morgan, Y Mynydd Bychan.



*Sioe Ffasiynau yn Neuadd y Ddinas i godi arian at Eisteddfod yr Urdd 2001*

**S.O.S.**

Mae angen gwirfoddolwyr i weithredu ar y pwyllgor Llety a Chroeso, Eisteddfod yr Urdd 2001 ac mae angen llu o stiwardiaid yn ystod wythnos yr ŵyl. Cysylltwch â Helen Wyn Daniels, Swyddfa'r Urdd, Canolfan Agenda, Stryd y Parc, Llanelli SA15 3YE. Ffôn: 01554 880 892

## CÔR CANNA

Wel, mae blwyddyn bron wedi pasio ers i ni dorri gair fel hyn yn y Dinesydd, ac mae'r amser wedi hedfan. Mae'r côr dal yn dal i ymarfer yn wythnosol yn Festri Capel Salem, Treganna, am 7.30 pm, ac mae criw hwyliog o ferched yn cwrdd yno, nid yn unig i fwynhau canu, ond i gymdeithasu a chael amser gwych yng nghwmni ein gilydd. Mae'r oedran yn amrywio o'r arddegau hwyr i'r pedwardegau ac mae'n braf gweld a chroesawu traws-doriad llwyr o ferched - athrawesau, cyfreithwyr, ysgrifenyddesau, cyfieithwyr, ymchwilwyr ac ati. Croeso i unrhyw un ohonoch ddod draw i ymuno â ni bob nos Lun - fe fyddwn yn falch iawn o'ch cwmni ac 'rwy'n siwr yr ewch o'r ymarfer yn ysu am fwy! Mae'r côr yn canu amrywiaeth eang o gerddoriaeth - o'r jazz i'r traddodiadol, o'r cerdd dant i'r ysgafn, o'r clasurol i'r swingl!

Eto, eleni, mae'r côr wedi bod wrthi yn brysur iawn yn cyngherdda, cystadlu ac yn fwy na dim, wedi llwyddo i orffen recordio cryno ddisg a chasét o dan label Cwmni Sain - CANNA!!, ac mae'r cryno ddisg yma a'r casét ar werth yn awr yn y siopau lleol, megis "Siop y Felin", ac "Oriel" yn ogystal â thrwy aelodau unigol o Gôr Canna. Ewch allan i'w brynu gan fod y canu sydd arno o'r safon uchaf - yn awyr iach, ac mae newydd-deb y sŵn yn apelio yn fawr i nifer sydd eisoes wedi gwrando arno ac yn ffres iawn i'r glust. Hwyrach eich bod wedi clywed ambell drac ar Radio Cymru yn ddiweddar. Fe glywch osodiadau cerdd dant, a threfniannau diddorol, ychydig o ganu ysgafn â band yn gefndir, darnau clasurol i gyfeiliant ardderchod Kim Morgans ar y piano, a chanu theimladwy ar un ochr a dramatig ar yr ochr arall. Fe glywch unawdwyr o fri arni hefyd e.e. Rhian Owen, sydd yn aelod o Gorws y Cwmni Opera Cenedlaethol, Nia Land â'i llais pwerus, hyfryd, a Rhian Huws Williams â'i llais unigryw melfedaidd a 'Jazzy'.

COFIWCH BRYNU CANNA!! Mi fydd yn werth bob ceiniog ac yn anrheg Nadolig gwych!

Mae amserlen y Côr yn llawn iawn i mewn i'r flwyddyn nesaf i'n cadw allan o drwbwl fel petai!

Dyma rai o gyhoeddiadau'r Côr yn y dyfodol:

| | | |
|---|---|---|
| Llanbedr Pont Steffan | - | Noson Garolau, Rhagfyr 2000 |
| Bryste | - | Cymdeithas Gymraeg, Rhagfyr 2000 |
| Capel Bangor | - | mis Mawrth, 2001 |
| Taith y Côr | - | Pasg, 2001 |

Cysylltwch â Delyth Medi Lloyd os am fwy o wybodaeth ynglŷn â threfnu cyngerdd yn eich ardal (rydym yn awyddus iawn i gefnogi unrhyw gapel, neu gymdeithasau arbennig), prynu cryno ddisg neu gasét 'CANNA!', neu os ydych â diddordeb i ymuno â'r Côr yn y dyfodol.

Llwyncelyn, 13 Pencisely Crescent, Llandaf, Caerdydd, CF5 1DS
Ffôn: 029 2025 4468

## Ail-agoriad Tŷ 'r Cymry

Cynhaliwyd seremoni ail agor Tŷ'r Cymry, Heol Gordon, Y Rhath ar ei newydd wedd as nos Lun, 25 Medi pan ddaeth llond y tŷ ynghyd i wrando ar y Barnwr Dewi Watkin Powell yn adrodd atgofion am ddyddiau cynnar y Tŷ a agorwyd ym mis Chwefror 1936 ac Owen John Thomas, Aelod y Cynulliad yn adrodd hanesion am ei blentyndod yng Nghaerdydd. Bu'r flwyddyn 1999-2000 yn un hynod yn hanes Tŷ'r Cymry gan yr adnewyddwyd y Tŷ drwyddo gan roi to newydd dros yr adeilad a gosod gwres canolog a chafwyd cymorthdal hael gan gyngor Sir Caerdydd tuag at gost y to. Ar ben hynny penderfynodd Gwmni Teledu Ci Diog gynnwys y Tŷ yn eu cyfres o raglenni ar S4C o'r enw 'Sgwadnewyddu' ac aethpwyd ati i weddnewid un o 'stafelloedd yn y tŷ yn ogystal â pheintio'r cyntedd a'r grisiau yn arwain at y stafell. Penderfynwyd galw'r stafell yn "Stafell Gwyn Daniel" er cof am un o gewri y dyddiau cynnar yn hanes twf Cymreictod yng Nghaerdydd a bu seremoni fach o ddadorchuddio plât uwchben y drws yng ngwydd teulu Gwyn Daniel, y barnwr Dewi Watkin Powell ac Owen John Thomas AC. Cyflwynwyd y dadorchuddiad gan Iorwerth Morgan, Llywydd y Tŷ, un arall o gewri'r achos. Gwyliwyd fideo o'r rhaglen



*Tŷ'r Cymry ar ei newydd wedd. Teulu'r diweddar Gwyn Daniel, Owen John Thomas AC, Hywel Morris, y Barnwr Dewi Watcyn Powell ac Iorwerth Morgan yng nghyfarfod ail agor y Tŷ.*

'Sgwadnewyddu' a mwynheuwyd yn fawr cyn cael lluniaeth a chyfle i sgwrsio uwchben paned o de. Mae Cymdeithas Tŷ'r Cymry yn cyfarfod bob mis ar nos Fercher am 8 o'r gloch ac mae croeso cynnes i bawb. Cynhelir parti Nadolig y Tŷ 20 Rhagfyr, am 8.00 pm. Croeso cynnes i bawb.

---

• **Pen-blwydd hapus i S4C** oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar 1 Tachwedd a dymuniadau gorau am ddyfodol llewyrchus. Dechreuodd raglenni digidol ar y Sianel yn 1998 ac amcangyfrifir rwan fod traean o gartrefi Cymraeg eu hiaith yn gallu derbyn y gwasanaeth hwn.

• Sefydlwyd gorsaf **Radio'r Ddraig Goch** yng Nglanfa Camlas y Gorllewin yng Nghaerdydd yn 1985 a byth oddi ar hynny hyd ddydd Llun, 13 Tachwedd darlledwyd o'r Ganolfan honno, ond oherwydd datblygu'r ffyrdd o ganol Caerdydd i'r Bae gorfu i'r Cwmni symud i adeilad yn Lanfa'r Iwerydd y drws nesa i gyfadail sinema UCI ym Mae Caerdydd.

• Roedd Clwb Ifor Bach dan sang ar nos Sadwrn, 7 Hydref, wedi'r gêm bêl-droed hynny rhwng tîm Cymru a Norwy â'r Grŵp "Anweledig" yn cyflwyno'r adloniant.

## Ymosod Siarc

Yn ddiweddar bu sôn yn y papur newydd am ddewrder Owen Phillips, 33 oed o'r Barri a achubodd dyn rhag ymosodiad siarc oddi ar ynys o'r enw Miyako i'r de o Okinawa. Mae Owen wedi bod yn gweithio fel athro Saesneg yn Siapan ers dwy flynedd ac mae ei rieni Glyn a Mair Phillips yn dal i fyw yn y Barri. Mae o'n aelod o Glwb Syrffio Achub Bae Jackson ac yn syrffiwr profiadol iawn. Yn ei amser hamdden yn Siapan mae o'n gweithio fel gwarchodwr bywyd. Er iddo fe a chyd-warchodwr lwyddo i achub y dyn o grafangau'r siarc bu farw yn diweddarach mewn ysbyty o'i glwyfau.

## Tafarn Cayo

Yn ddiweddar agorwyd tafarn newydd ar Heol yr Eglwys Gadeiriol gan Gwmni Tomos Watkins, y 'Cayo Arms', wedi'i henwi ar ôl Julian Cayo Evans, arweinydd Byddin Rhyddid Cymru gynt. Cyflogir staff dwyieithog ac y mae'r lle yn profi'n gryn atynfa i Gymry o bob oed. Rheolwr y dafarn yw Alun Davies, gynt o Lys-faen.

## Margaret Gardner - Gwerthfawrogiad

Ddiwedd Medi bu farw Margaret Gardner o'r Eglwys Newydd (gynt o Nantymoel). Gwraig anhygoel o amryddawn, yn artist; yn grefftwraig ac yn gymwynaswraig hael o'i hamser a'i hegni. Daeth atom ni, Gymry Cymraeg dros y bont ieithyddol, a rhoddodd ei hysgwydd dan y baich o gynnal cymdeithas Gymraeg ei hiaith yma yng Nghaerydd. Dyrnaid fach oedd hi o ran maint, ond yr oedd yn gwybod lle a sut i gario llwyth.

Ofer fyddai i chi chwilio am Margaret ymysg y 'mawrion' yn ein plith - y rhai hynny sy'n cael clod a sylw am ddweud pethau gorchestol am iaith a chymdeithas ond sydd heb godi bys i gynnal unpeth sy'n rhoi arlliw Cymraeg ar gymdeithasau'r ddinas. Cynnal yr achosion sy'n rhoi hwb a hwyl i Gymry cyffredin oedd ffordd Margaret o ymarfer ei Chymreictod.

Bydd Eglwys Dewi Sant yn ei cholli, bydd Tŷ'r Cymry yn wâg iawn hebddi; bydd Clwb Cinio Merched Caerdydd yn ei chofio'n garedig; ac yn siwr bydd y dyrnaid o wragedd sy'n cydnabod bodolaeth Merched y Wawr yn galaru colli un o'r aelodau mwyaf teyrngar a chyn-Lywydd Cangen y Brifddinas. Ac y mae mwy yn gwybod am ei cholli.

Braint oedd cael ei hadnabod. Mae'n cydymdeimlad gyda Sid yn ei golled.

**Margaret Evans**

## Miri Medi

Cafwyd noson i'w chofio yn Neuadd Bentref Llys-faen, nos Wener, 8 Medi, pan ddaeth tyrfa ynghyd i fwynhau 'Miri Medi' yng nghwmni Gwyndaf Roberts, Emyr Wyn, Peter Jones, Iolo Jones, Dave Burns, Delwyn Siôn, René Griffith a Graham Pritchard. Trefnwyd y noson gan Valmai Griffiths, Rhiwbina, ac aeth elw'r noson at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2001. Rhoddodd yr holl artistiaid eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim, gan sicrhau elw sylweddol iawn i'r noson.

## THEATR CRWYS, CAERDYDD



*Cwmni Drama'r Crwys gyda Thlws yr Eisteddfod*

Mae hanes Cymdeithas Ddrama Eglwys y Crwys, fel y gelwid hi, yn mynd yn ôl i'r dauddegau, pan sefydlwyd y Cwmni yn Heol y Crwys dan arweiniad y diweddar Mrs D J Parry a Mrs T J Jones. Ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, cymerodd y diweddar Dennis Jones yr awennau a bu llwyddiant mawr, gyda chynhyrchiadau fel Amlyn ag Amig, Lili'r Grog, Hen Wr y Mynydd ac Esther yn cael eu llwyfannu. Perfformiwyd Esther ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol y tro diwethaf y bu yn Llanelli a dyfarnwyd yr ail wobr i'r cynhyrchiad. Bu'r Cwmni yn dawel rhwng y chwedegau a'r saithdegau hyd nes i Gareth Lloyd Williams (Ffilmiau Llifon yn awr) ddod i ail gynnau'r fflam, ac ers hynny mae wedi mynd o nerth i nerth, ac wedi ennill gwobrau Cenedlaethol a Rhanbarthol yn ystod y blynyddoedd. Tair gwobr gyntaf, un ail a thair trydydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ynghyd â gwobrau yng ngŷyliau Drama Powys a Phontrhydfendigaid.

Yr uwch-gynhyrchydd presennol yw George Owen, gynt o'r BBC a HTV, a chyn-Swyddog Drama'r Eisteddfod Genedlaethol. Mawr yw dyled y cwmni iddo dros gyfnod helaeth o flynyddoedd. Bellach mae gan y cwmni is-gynhyrchwyr profiadol iawn sydd wedi dysgu'r grefft wrth droed y meistr.

Pan symudodd Eglwys y Crwys o Heol y Crwys i'w safle presennol yn Heol Richmond, gwelwyd y posibiliadau o addasu y llofft, a oedd yng nghefn yr adeilad, yn theatr fechan. Aethpwyd ymlaen ar gwaith ac erbyn hyn mae'r cwmni yn gallu ymarfer a pherfformio yn ei theatr ei hunan, theatr sy'n eistedd pedwar ugain o gynulleidfa. Mae'r cyfleusterau yma, yn cynnwys offer sain a goleuadau, yn cael eu defnyddio nid yn unig gan Theatr y Crwys ond hefyd gan gwmnïau eraill, megis Minny Street a Phrifysgol Caerdydd.

Mae'r Cwmni yn llwyfannu amryw o gynhyrchiadau bob blwyddyn, rhai ar gyfer y capel a rhai ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol. Y llynedd, fel y cofiwch, dramâu byrion oedd wedi cael eu darparu ar eich cyfer. Tair drama fer am y byd rygbi, a hynny gan fod Cwpan Rygbi'r Byd yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ar y pryd. Roedd y tocynnau ar gyfer y cynhyrchiadau yma wedi cael eu gwerthu i gyd a dywed rhai ei bod wedi bod yn haws cael tocyn ar gyfer gêm rygbi!

Eleni dramâu byrion aeth â hi eto, yn bennaf gan ein bod am gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli, a chystadlu yng nghystadleuaeth actio drama fer. Fe wnaethom fwy na hynny gan inni gipio'r wobr gyntaf allan o saith o gwmnïau.

Rydym ar drothwy tymor newydd, felly os oes gennych chi ddiddordeb mewn actio, gwaith coed, paentio, coluro, gwnïo? Yna peidiwch â mynychu Ysgol Nos, dewch yn aelod o Theatr Crwys. Croeso i'r profiadol a'r dibrofiad, pob nos Fercher yn Theatr y Crwys am 7.30 pm, neu gallwch ffonio Caerdydd 2062 7903 neu 2070 8253 am ragor o wybodaeth.

**Bob Roberts**

---

## Awduron Prysur

Cyhoeddwyd sawl cyfrol yn ddiweddar gan Wasg Carreg Gwalch o waith trigolion a chyn-drigolion y brifddinas.

Cyflwyniad i waith celf cyfoes, lle y cyfunir lluniau lliw-llawn o weithiau gan artistiaid Cymreig a cherddi newydd gan feirdd cyfoes, yw *Darllen Delweddau*, a olygwyd gan Iwan Bala. Yn ogystal ag Iwan Bala ei hun, a fu'n byw yng Nghaerdydd er 1973, y mae gan lawer o'r artisitiad a'r beirdd gysylltiadau agos â'r ddinas, gan gynnwys Emyr Lewis, Ivor Davies, Iwan Llwyd, Paul Beauchamp, Catrin Webster, Nia Evans, Helen Clifford, Angharad Jones, T. James Jones, Nia Powell, Elinor Wyn Reynolds, Terry Setch, Tony Goble, Sue Williams, Ifor ap Glyn, David Greenslade, a Mari George.

Yna, rhif 46 yn y gyfres 'Llyfrau Llafar Gwlad' yw *'Fyl'Na Weden I': Blas ar Dafodiaith Canol Ceredigion* gan Huw Evans a Marian Davies, cyfrol sy'n fwynglawdd o wybodaeth am eirfa ac ymadroddion y sir. Bu Marian, sydd bellach yn athrawes yn Ysgol Uwchradd Aberteifi, yn fyfyrwraig yn Adran Gymraeg Prifysgol Caerdydd yng nghanol y nawdegau. Myfyriwr yn Adran Gymraeg Caerdydd yn y pedwar a'r pumdegau yw awdur rhif 47 yng nghyfres 'Llyfrau Llafar Gwlad', sef Dr E. G. (Tedi) Millward. Brodor o Gaerdydd yw Dr Millward, a ddysgodd Gymraeg yn Ysgol Cathays wrth draed Mr W. C. Elvet Thomas, ac a dreuliodd y rhan fwyaf o'i yrfa yn ddarlithydd yn Adran Gymraeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae ei gyfrol ef, *'Gymrwch Chi Baned?'*, yn rhoi golwg hynod ddifyr ar hanes yfed te yng Nghymru dros y canrifoedd trwy gyfrwng cerddi, lluniau, hysbysebion a phytiau allan o lyfrau, erthyglau papur newydd a chylchgronau.

* * *

## Llundain, Y Wladfa, Iwerddon . . .

Ar ôl ei berfformiadau llwyddianmnus yn nrama'r *Graduate* yn y West End yn Llundain, bu'r actor ifanc dawnus o Gaerdydd, Mathew Rhys, ar wyliau yn Ariannin, gan dreulio ychydig ddyddiau yn y Gaiman, cyn dychwelyd i Iwerddon, lle y mae'n gweithio am dri mis ar ei ffilm nesaf, *The Abduction Club*. Mae ffilm arall lle y mae'n ymddangos gyda'r actor enwog, Syr Anthony Hopkins, sef Titus, newydd ei rhyddhau.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EGLWYS DEWI SANT

Cafwyd llawer o weithgareddau amrywiol yn ystod misoedd yr Haf gan ddechrau ag ymweliad â fferm Hendrewennol yn y Fro er mwyn casglu mefus, a mwynhau picnic yng nghwmni'n gilydd. Ddiwedd mis Mehefin cynhaliwyd barbeciw y tu allan i'r eglwys yng Nghilgant Sant Andreas pan gafwyd gwledd a chyfle i fwyta mwy o fefus! Trefnwyd taith i'r Ardd Fotaneg ganol mis Gorffennaf i deuluoedd yr Eglwys a'u ffrindiau. Cawsom gyfle i fwynhau'r amrywiaeth o goed a phlanhigion ar ddiwrnod braf dros ben.

Cychwynnwyd ambell fenter newydd yn ystod y misoedd diwethaf. Mae nifer o gerddwyr brwdfrydig ymhlith teulu'r Eglwys, gan gynnwys y ficer ei hun, Meurig Llwyd; ac mae gennym arweinydd profiadol iawn, sef yr Esgob Cledan. Felly penderfynwyd sefydlu "Clwb Cerdded Cledan", ac ar Sadwrn olaf bob mis mae'r grŵp egniol yma i'w weld yn troedio llwybrau'r Fro. Buom o Gefn Onn i Rhydri a nôl, o Benarth i Sili ac ar hyd llwybr y Taf - a'r haul yn gwenu bob tro!

Arbrawf arall yw'r Awr Hapus, pan wahoddir aelodau sy'n gweithio yng nghanol y ddinas i gwrdd am sgwrs unwaith y mis yn y Slug and Lettuce ar ôl diwrnod gwaith. Cafwyd ymateb da. Hefyd daeth criw at ei gilydd i fwynhau cinio Sul mewn tŷ bwyta ar ôl y gwasanaeth boreol.

Rhaid llongyfarch y Parchedig Enid Morgan ar gael ei hordeinio yn Ficer plwyf hynafol Llangynwyd. Roedd y gwasanaeth sefydlu ar Fedi'r 7fed. Byddwn yn gweld ei heisiau yn Newi Sant.

Ffurfiwyd Cylch Dewi er mwyn cynllunio ar gyfer yr ŵyl Flodau a gynhelir yn yr eglwys yn 2002. Bydd aelodau'r Cylch yn gwneud baner newydd i'r eglwys hefyd.

Llongyfarchiadau i Siôn a Kathryn Brynach ar enedigaeth mab, Pwyll, ac i'r Esgob Saunders a Cynthia ar fod yn Dad-cu a Mam-gu am y tro cyntaf.

## EGLWYS Y CRWYS

Gyda dyfodiad mis Medi daeth bywyd yr Eglwys yn ôl i'r patrwm arferol. Ddydd Sul cyntaf yn y mis derbyniwyd rhodd o Fwrdd Cymun er cof am Mrs Minwel Tibbot. Fe'i cyflwynwyd at wasanaeth yr Eglwys gan ei phriod Mr Delwyn Tibbot.

Yn ôl ein harfer erbyn hyn daeth cyfle i ymuno ag Eglwys Minny Street yn ei chyfarfod pregethu blynyddol ar Nos Sul, Medi 14. Hyfryd oedd cael rhannu oedfa gydag aelodau Eglwysi eraill yn y ddinas.

Cynhaliodd y Cylch Cymorth fore coffi yng nghartre Miss Nell Lloyd-Jones yn Rhiwbina. Ar waethaf y cyfyngu ar danwydd cafwyd bore llwyddiannus iawn ac fe wnaed elw teilwng tuag at achosion tyngarol.

Nos Wener, Medi 29, cafodd aelodau y Gymdeithas noson agoriadol ragorol yn gwrando ar y Dr Dewi Lewis yn sôn am fywyd a gwaith y cerddor J.S.Bach. Diolchwyd iddo gan Mr Ellis Roberts.

Ddydd Mercher, Hydref 4, daeth aelodau y Grŵp Merched, Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa ynghyd i rannu prynhawn gyda'r aelodau hynny sy'n methu â dod i'r oedfaon arferol ar y Sul. Mrs Kathleen Wood a roddodd air o groeso a hi hefyd a gyflwynodd y siaradwr gwadd, y Parchedig Gareth Edwards. Yn dilyn yr anerchiad cafwyd te prynhawn yn y festri.

Nos Sadwrn, Hydref 7, cafwyd noson ddifyr a bendithiol yn gwrando ar gyngerdd gan Gôr Meibion Cwmbach, Aberdâr. Mr Emyr Wyn Roberts, un o aelodau'r eglwys, yw cyfarwyddwr cerdd y côr ac ef hefyd a rois gyfle i rai o ieuenctid yr eglwys i arddangos eu doniau cerddorol diamheuol. Mr Robin Jones oedd arweinydd y noson ac fe aiff yr elw tuag at Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro, 2001.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Bu farw tri o'n haelodau dros y misoedd diwethaf: Miss Hannah Thomas (Y Mynydd Bychan); Mr Evan Prytherch (Cyncoed) a Miss Sylvia Evans (Yr Eglwys Newydd). Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn a chofiwn yn annwyl iawn am deuluoedd y tri.
Llongyfarchiadau calonnog i un o'n pobl ifanc, Bethan Warrington ar ei phriodas â Toby Charles Howard Stiles yn Minny Street ganol mis Awst.

Ein braint ddechrau'r Hydref oedd cael tystio i fedydd Mali Erin Widgery, merch fach Rhian a Kevin Widgery (Caerffili) a chwaer fach Elis Huw.

Mewn oedfa Gymun dan arweiniad ein Gweinidog, y Parchedig Eifion Powell ddechrau Gorffennaf, cawsom y fraint o groesawu chwech o aelodau newydd sef Aled Williams (Rhiwbina); Alun a Nansi George (Y Bontfaen) a'i merch, Esyllt (Penlan); ac Alun a Pat Thomas (Dinas Powis). Yna, ddechrau'r Hydref, derbyniwyd dau aelod arall sef Ms Angharad Mair a Jonathan Cray (Cyncoed). Croeso cynnes iawn i bob yr un ohonynt.

Cafwyd noson arbennig iawn ym mis Medi pan ddaeth y Dr Dewi Lewis (o Eglwys y Crwys) atom i roi datganiad ar ein organ newydd. Yna rai wythnosau yn ddiweddarach cychwynwyd ar dymor y Gymdeithas: gwasanaeth gyda Richard Gwyn Jones o'r Ganolfan Materion Rhyngwladol yn annerch; yna noson yng nghwmni dwy o ferched a fagwyd yn yr eglwys, Delyth Evans (sydd bellach yn aelod o'r Cynulliad) a'i chwaer, Carys Annett. Tair noson wahanol ond cofiadwy iawn.

Yn Minny Street y cynhaliwyd Gwasaneth, Ffair a Noson Goffi Cymdeithas y Beibl eleni a da oedd gweld y capel yn gyfforddus lawn ar gyfer y noson bwysig hon.

## EGLWYS ANNIBYNNOL GYMRAEG Y BARRI

Llongyfarchiadau i Catrin Davies a Michael Moore a briodwyd yn y Capel dros yr haf.
Llawenhawn yn llwyddiant pobl ifanc yr Eglwys yn eu amryw arholiadau, a dymunwn yn dda i'r sawl sy'n cychwyn ar gyrsiau Prifysgol a'r sawl sy'n dechrau gyrfaoedd newydd.

Cynhaliwyd ein cyfarfodydd Diolchgarwch ar ddydd Sul cyntaf Hydref, a llawenydd i bawb a oedd yn bresennol yn oedfa'r bore oedd bod yn dystion i fedydd Lisa Anwen, merch Angharad a Haydn Hughes, ac wyres Nan a Chris Rees.
Bu plant a phobl ifanc yr Eglwys, ynghyd â ieuenctid Bethel, Penarth ar ymweliad â Gorsaf Dân Y Barri yn ddiweddar, a chafwyd noson hwyliog a diddorol yn dysgu am waith y gwasnaeth tân a'i gyfraniad pwysig i fywyd y dref.

Yn yr oedfa fore Sul Tachwedd 5ed dadorchuddiwyd ffenest liw newydd yn y Capel yn rhoddedig gan y teulu er cof am y diweddar Mr a Mrs Dan Evans. Cynlluniwyd a chrewyd y ffenest gan Gareth Morgan o Gaerfyrddin, a chymerodd fel thema i'r ffenest adnodau o bennod 35 o Lyfr y Proffwyd Eseia - pennod sy'n sôn am yr Arglwydd yn troi'r anialdir yn dir blodeuog. Mawr hyderwn y bydd y ffenest newydd hon yn dwyn llawenydd a gobaith i addolwyr presennol yr Eglwys, ac i'r cenedlaethau a ddaw ar ein hôl.


Croeso cynnes i Elin Jones sydd wedi trosglwyddo'i haelodaeth atom o Gapel Trehill.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

## Ysgol Gymraeg Penygarth, Penarth

### Yn Profi Llangrannog

Bu plant blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Penygarth, Penarth ar lan y lli yn ddiweddar, yn profi gwledd o Gymreictod ar gwrs iaith o wythnos yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog.



*Plant Ysgol Penygarth, Penarth, yn mwynhau cael eu haddysgu ar lan y lli yn Llangrannog.*

### Diolchgarwch

Hyfrydwch pur oedd cael bod yn ŵr gwadd yng Ngwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Penygarth eleni. Dyna beth yw golygfa sy'n codi calon - neuadd yn llawn o blant yn amlwg wrth eu bodd yn canu, darllen ac offrymu'r gweddïau yr oedden nhw wedi ysgrifennu eu hunain. Cafwyd cyfraniad gan bob oedran, o'r ieuengaf i'r hynaf. Roedd disgwyl i'r gŵr gwadd ddweud gair hefyd, a diolch am y cyfle i sôn am fyd Duw a phosibiliadau'r hedyn (a'r plentyn) lleiaf i dyfu'n fawr a defnyddiol.

Roedd rhai o'r plant wedi dod â ffrwythau a llysiau, ac eraill wedi dod ag arian. Rhannwyd cynnyrch y ddaear ymhlith cartrefi henoed yr ardal, a'r arian i Gartref Nyrsio Holme Tower. Ie, mae rhannu ag eraill yn rhoi dyfnder i'n diolch.

Mae cysylltiad hir rhwng Ysgol Penygarth a Chapel Bethel, Penarth. Pan oedd yr ysgol yn llai o ran rhif roedd y capel yn ddigon mawr ar gyfer y gwasanaethau tymhorol yma. Ond mae apêl addysg Gymraeg yn golygu bod yr Ysgol bellach yn rhy fawr i ddod i Fethel. Ond mae Bethel yn cael mynd i'r ysgol, neu o leiaf mae gweinidog Bethel yn cael mynd yno'n bur rheolaidd, ac mae hynny'n sicrhau bod y cysylltiad yn para.

Cyn bydd y ddeilen olaf wedi disgyn o'r coed bydd meddyliau athrawon a disgyblion Penygarth yn troi at baratoadau'r Nadolig. Mae'r atgof am ddathliadau llynedd yn dal yn fyw. Rwy'n edrych ymlaen yn barod. Dydy pawb ddim yn cael mynd! Diolch fod y gwahoddiad wedi dod eisoes, ac addewid am sedd.

**Allan Pickard**

## Sain, Cerdd a Chân ym Mhenarth yn arwain at y Brifŵyl

I ble'r aiff 45,000 o Gymry ifainc bob Sulgwyn? I Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, wrth gwrs, ac i Gaerdydd yn benodol ym 2001.

Mae'r sbri wedi dechrau eisoes yng nghylch y brifddinas, gydag ysgolion Penarth wedi bod wrthi yn codi arian ac yn ymarfer eu doniau cerddorol yn barod. Yn ystod mis Hydref, cynhaliwyd cyngerdd yn Ysgol Stanwell, Penarth, gydag Ysgol Gymraeg Penygarth a'i gôr nodedig, ynghyd â disgyblion o ysgolion eraill y dref, yn dathlu dyfodiad yr Ŵyl.



*Cyngerdd yr Urdd*

## Lawns Sali Mali Animeiddiedig

Pan fydd rhywun yn meddwl am Rhys Ifans mae'n anodd iawn peidio â meddwl am bants gwyn yn yr un eiliad. Ond mae'r seren o Ruthun wedi rhoi ei stamp ar gyfres animeiddiedig newydd cwmni Siriol fel llais storïwr Sali Mali. Hefyd yn canu'r gân agoriadol y mae Cerys Mathews.

Mae Sali Mali yn un o gymeriadau sydd wedi dylanwadu ar genhedlaethau o blant. Mae'n gyfres hwyliog liwgar ac mae'n cael ei darlledu ar S4C bob dydd Gwener am un o'r gloch ar Planet Plant, ac i ddathlu'r gyfres newydd yma aeth Sali Mali i ymweld â'r uned feithrin yn Ysgol Gymraeg Coed y Gof, Pentrebaen yng Nghaerdydd. Cafodd plant yr uned gyfle i gwrdd â Sali Mali. Fe wnaeth nifer o blant hŷn yr ysgol esbonio pa mor bwysig mae Sali Mali wedi bod iddyn nhw a beth oedd eu barn ar y gyfres newydd ar raglen Ffeil.



# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Rygbi



Neithiwr, sef nos Wener olaf mis Hydref, bûm i'n gwylio gornest rygbi hynod o gyffrous ar faes clwb Caerdydd - minnau a thros dair mil-ar-ddeg o gefnogwyr eraill. 'Roedd hi'n llawn i'r ymylon ar gyfer ymweliad clwb y Saraseniaid yng Nghwpan Heinecen, ac er na wn a ydyw ymffrost cynhyrchwyr y cwrw hwnnw'n gywir ai peidio ynglyn â'r hylif yn cyrraedd rhannau o'r corff nas cyrhaeddir gan gynnyrch bragwyr eraill, gwn fod eu nawdd i glybiau rygbi'r Cyfandir yn cyrraedd pob cornel o Ewrop. Yr oeddwn i wedi bod yn Heol y Ficerdy yn Watford, cartref clwb pêl-droed y dref honno, wythnos ynghynt i wylio'r gyntaf o'r ddwy ornest yn y rownd honno, ac er bod honno'n well gornest o lawer, yr ail oedd y fwyaf cyffrous o gryn dipyn. Chwe chais yn Watford - pedwar i Gaerdydd - ond un yn unig yma, a hwnnw gan ganolwr y Saraseniaid, Kevin Sorrell, i gwblhau ymosod ffyrnig ganddynt yng nghornel dde Caerdydd. Cyn hynny, yr oedd Neil Jenkins wedi trosi tair cic gosb o 30 metr, 47 metr a 22 fetr, ac yr oedd Thomas Castaignede wedi methu â'i ddau gynnig o 17 a 28 o fetrau, a'r maswr o Awstralia, Duncan McRae, ei un ef o 24 metr. Wedi'r ornest dywedodd Francois Pienaar, Prif Weithredwr y Saraseniaid, mai methu â throsi'r rheiny oedd yn bennaf gyfrifol am iddynt golli. Cafodd y Ffrancwr, Castaignede, ornest arbennig o wael ac yntau'n chwaraewr mor ddawnus; mae hi'n bur debyg bod yr awyrgylch gwefreiddiol wedi bod yn drech nag ef, er y dylai fod un a godwyd ym merw de-orllewin Ffrainc yn gyfarwydd â swn (tân gwyllt, bandiau ac ati). Noson Caerdydd oedd hi, ac wyth gôl gosb o'i wyth cynnig i Neil Jenkins. Caerdydd, felly, â dwy ornest ar ôl, yn erbyn Ulster gartref a Toulouse oddi cartref, cyn cyrraedd rownd yr wyth olaf ddiwedd Ionawr. Trueni bod bwlch o ryw naw wythnos cyn cwblhau'r rownd hon - gwell o lawer fyddai chwarae'r chwe gornest heb fwlch o gwbl - ond credaf y bydd Caerdydd ar ben y pwll a chwarae gartref o'r herwydd yn y rownd nesaf. Bydd yn rhaid i'r Saraseniaid ymweld â Belffast yn eu gornest olaf nhw yn y rownd hon, ac er iddynt ennill yn erbyn y Gwyddelod gartref o 55 pwynt i 25, ni fydd hi'n hawdd iddynt ennill o sgôr mawr oddi cartref. Ar hyn o bryd, yr wyf fi'n rhagweld y bydd Caerdydd yn ennill y cwpan y tro hwn, ond nac anghofier Abertawe a Llanelli.

*A dyma sylwadau Howard Spriggs ar glwb pêl-droed y brifddinas.*



**Caerdydd - beth yw'r rhagolygon?**

Er bod gan Gaerdydd berchennog ariannog wrth y llyw yn Sam Hammam, a gafodd cymaint o lwyddiant pan oedd yn gadeirydd Wimbledon - dydy hynny o reidrwydd ddim yn golygu y bydd yr un llwyddiant ar Barc Ninian.

Ers ei ddyfodiad mae'r chwaraewyr wedi profi tri 'hyfforddwr' o fewn y ddeufis diwetha - mae Billy Ayre wedi'i ddiswyddo. Bobby Gould wedi ei symud i safle weinyddol o fewn y clwb - a bellach Alan Cork (fu'n fethiant fel rheolwr Abertawe) sydd â gofal y tîm. 'Doedd rhyfedd yn y byd mai siomedig yw chwarae'r tîm a'i safle yn y cynghrair yn anfoddhaol.

Mae yna ormod o lawer o newidiadau ac mae'n ymddangos fod y chwaraewyr ar goll a'u hysbryd yn isel a dweud y lleia. Mae gofyn i chwaraewyr chwarae allan o'u safle naturiol; mae'r tîm yn wan lle dylse fod yn gadarn - yng nghanol yr amddiffyn - 'does fawr o lewyrch yng nghanol y cae ac i bob golwg yr unig dacteg yw cic hir i fyny'r canol - gobeithio am beniad ymlaen a rhywun yn cysylltu â'r bêl - heblaw hyn 'does fawr o gymorth i'r blaenwyr - rhyfedd yn y byd fod sgorio'n anodd.

Mae angen sefydlogrwydd yn ddiymdroi - a chyfle i'r chwaraewyr newydd fel Fortune West, Daniel Gabbidon, David Greene a Scott McCulloch ddod i adnabod chwarae ei gilydd a chwarae'r tîm.

Mae disgwyl mawr i Gaerdydd ddyrchafu o'r drydedd adran ar ddiwedd y tymor - ar hyn o bryd breuddwyd yn unig yw hyn - er bod y gefnogaeth o gêm i gêm gyda'r ore yn y drydedd adran. Mae'r cefnogwyr yn haeddu gwell ar y cae ac oddi arno.

## Cymru

O ran tîm Cymru tybed oes yna lwyddiant ar y gorwel? Er ennill ond dau bwynt o'i dair gêm eisoes yn rowndiau rhagbrofol y Cwpan Byd mae'r gobaith yn parhau er cyrraedd y rowndiau terfynol.

Siomedig oedd ei chwarae yn erbyn Norwy yn enwedig yn yr hanner cynta - ond bu gwelliant wedi'r egwyl ac yn erbyn Gwlad Pwyl yn Warsaw ac am unwaith 'roedd yr amddiffyn yn gadarn - er bod yna bryder am y cardiau melyn i'r chwaraewyr sy'n or-frwd gyda'u taclo!

Bellach 'does dim gêm yn y gystadleuaeth tan fis Mawrth 2001 ac o gofio fod gan Gymru fwy o gêmau gartre nag oddi cartre - dydi hi ddim yn ambosibl i gyrraedd y rowndiau terfynol.

A phob clod i'r cefnogwyr - pa dîm arall yn y gystadleuaeth sy'n derbyn y fath gefnogaeth? Dros 50,000 i wylio Norwy - anhygoel!

## Angen Oxygen

Lansiwyd blodeugerdd ddwyieithog bwerus gan feirdd newydd o Gymru - *Oxygen* - yn y Sports Cafe ym Mae Caerdydd yn ddiweddar. Cafwyd cyflwyniad gan Rhodri Morgan, gyda Robert Minhinnick, Golygydd *Poetry Wales*, yn llywio'r noson.

Dathlu asbri barddoniaeth gyfoes o Gymru, a rhoi cipolwg ar ei thalent newydd, dyna a wneir yn *Oxygen*. Mae'n gymysgedd eclectig a phenfeddwol o gerddi yn y ddwy iaith gan ddeg ar hugain o feirdd o'r genhedlaeth iau yng Nghymru, gyda chyfieithiadau Saesneg yn gyfochrog â'r cerddi Cymraeg.

Dau o Dreganna, sef Amy Wick a Grahame Davies, sydd wedi cydolygu'r gyfrol.


## Gardd Glyndŵr

Mae'n fwriad gan drigolion Pennal i goffau 600 mlwyddiant Rhyfel Glyndŵr trwy greu Gardd Ryngwladol ar safle Capel Brenhinol Glyndŵr ym Mhennal. Mae angen £20,000 i ddatblygu'r ardd, gan gynnwys cost cerflun newydd o Glyndwr gan Dave Haynes, cerflunydd o Fethesda. Maent yn apelio yn arbennig i ddarllenwyr papurau bro Cymru a chymdeithasau Cymraeg Gogledd America am gyfraniadau tuag at y prosiect. Y bwriad fydd cynnwys enwau pob papur bro Cymraeg a phob cymdeithas Gymraeg yng Ngogledd America yn amlwg yn yr ardd; yn ogystal, bydd llyfr yn cynnwys enw pawb a gyfrannodd i'r gronfa. Dylid anfon cyfraniadau at y Parch. Geraint ap Iorweth, Y Rheithordy, Pennal, Machynlleth, Powys SY20 9JS (Ffôn: 01654-791216; e-bost: apennal@ouvip.com). Pensaer y tirlun fydd Iwan Richards o Gaeryddd.

## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

### Digon i yrru rhywun yn wallgo...



Efallai roedd hi'n gamgymeriad prynu car yn Abertawe. Car o'r Gorllewin yw e, yn bendant. Gofyn iddo fe fynd i Abertawe ac mae'n hapus; pigo i lawr i'r 'Steddfod yn Llanelli, dim trafferth; mynd i Aberystwyth am benwythnos, hawdd; ond ceisio dod o hyd i rywle yng Nghaerdydd, gobaith caneri. Treuliais i awr yn ceisio mynd i B&Q cyn gyrru teirgwaith o gwmpas Llanrhymni a rhoi'r gorau; es i i lawr yr M4 ar y ffordd i Asda ar lan yr A470 ar y ffordd 'nôl; gyrrais i ar hyd ffyrdd troellog rhyw stâd dai wrth chwilio am Rodfa'r Gorllewin, ac ar ôl dod o hyd iddi, troi i'r cyfeiriad anghywir. Er hynny, mae Jo Bach (rhaid iddo gael enw) wrth ei fodd rywsut ar ffyrdd bach cefn gwlad ar y ffordd i Aber, er efallai roedd hi'n gamgymeriad gyrru i gyfeiliant tâp Caryl Parry Jones ar heol y mynyddoedd wrth nesáu at Aber - sylweddolais hyn pan welais fod fy nghyd-deithiwr wedi gwelwi wrth i Caryl floeddio, "Aros, ti'n mynd dros y dibyn eto...!" Byddai Dafydd Iwan wedi bod yn saffach, hwyrach.

### Cofiwch 'Steddfod yr Urdd

Roeddwn i ar y ffordd i bwyllgor Eisteddfod yr Urdd wrth imi fynd ar goll yng Nghaerdydd y tro diwethaf. Rwy'n siŵr bod y rhan fwyaf ohonoch chi'n gwybod bod 'Steddfod yr Urdd yma yn 2001. Rydyn ni'n brysur yn paratoi yn barod. Ac mae eisiau help arnon ni. Allech chi helpu? Yn gyntaf, mae eisiau codi arian, wrth gwrs. Oes syniadau 'da chi? Efallai gall eich dosbarth Cymraeg gwneud rhywbeth? Raffl, gwerthu teisennau, rhywbeth mwy gwreiddiol? Sgrifennwch aton ni gyda'ch syniadau - rwy'n cynnig gwobr (fach!) am y syniad gorau! Yn ail, allech chi helpu yn ystod yr Eisteddfod? Mae eisiau stiwardiaid (mynediad am ddim!), a phobl i helpu gyda phob math o weithgareddau ym mhabell y dysgwyr - cofiwch, does dim rhaid i'ch Cymraeg fod yn berffaith ichi fod yn gymorth mawr! Gallech gysylltu â fi drwy'r Dinesydd - rwy'n aros am eich llythyrau...

**Geirfa**

gwallgo - *crazy*
troellog - *twisting*
stad tai - *housing estate*
Rhodfa'r Gorllewin
-
er hynny - *however*
i gyfeiliant - *accompanied by*
cyd-deithiwr - *fellow-traveller*
gwelwi - *to turn pale*
dibyn - *precipice*
pwyllgor - *committee*
syniad(au) - *idea(s)*
gwreiddiol - *original*
stiwardiaid - *stewards*
mynediad am ddim - *free entry*
gweithgareddau - *activities*
cysylltu - *get in touch*

### Gemau Ieuenctid Mileniwm

Cynhaliwyd gemau Ieuenctid Mileniwm yn Southampton gyda tua 7000 o ieuenctid o bob cwr o'r Deyrnas Gyfunol yn cymeryd rhan mewn wyth o wahanol chwaraeon. Cynrychiolwyd Cymru mewn athletau gan dîm o blant Blwyddyn 8 o Gaerdydd. Roedd 6 bachgen a 6 merch ynghyd â dau wrth gefn yn y tîm gyda phob un yn gwneud naid, tafliad, râs redeg a chyfnewid. Ar ddiwedd yr ail ddydd roedd tîm Cymru ar y blaen o 6 phwynt a phopeth yn dibynnu ar y râs gyfnewid. Daeth tîm y merched yn bumed ond enillodd y bechgyn gydag amser cyflym o 48.5 a Chymru oedd y pencampwyr allan o 52 o dimau a oedd yn dod o bob rhan o Brydain. Roedd 7 ysgol yn cael eu cynrychioli yn y tîm ond roedd traean o'r plant yn dod o'r ddwy Ysgol Gymraeg. Mae Alyshia Howells, Curtis Hillberg a Zak Turner yn ddisgyblion yng Nglantaf a Gethin Watkin Thomas yn Ysgol Plasmawr. Hyfforddwyr y tîm oedd Dai Williams o Glantaf a Brenda Buckingham o Glyn Derw. Cyflwynwyd medalau aur i'r tîm gan enwogion o fyd athletau a chwpan arian gan noddwyr y Gemau BAA ac English Sport. Llongyfarchiadau mawr iddynt.



*Yn y llun o'r chwith i'r dde: Curtis Hillberg, Alyshia Howells, Zak Turner, Gethin Thomas.*



*Y tîm cyfan gyda'r hyfforddwyr*

# YSGOL GLANTAF

## Glantaf ar Daith

**Taith yr Adran Gerdd i Tossa de Mar, Barcelona**

Wel, dyna beth oedd taith wefreiddiol! Dyma yn sicr un o uchafbwyntiau gyrfa ysgol, a phrofiadau ysgol nifer o'r disgyblion hyd yma. Roedd yna 62 o blant, o flynyddoedd 10 i 13, a chymysgedd da o ferched a bechgyn; a do, fe gawsom sbort!

Bu paratoi manwl iawn. Rhaid oedd llogi fan transit yn ogystal â chael bws deulawr er mwyn cario'r piano a thiwba a stondinau a thrombonau!

Fe gafwyd ymarferion trwyadl yn P2- y côr cymysg yn dysgu'r deunydd ar gyfer y cyngherddau. Fe ddaeth yr hen ffefrynnau allan-yr emynau Cymraeg adnabyddus, caneuon Ryan, 'Lacrymosa' Mozart, 'Dashenka', Hafan Gobaith, 'O Nefol Addwyn Oen', Gwahoddiad, Traddodiad a mwy!

Cafwyd 3 cyngerdd bythgofiadwy allan yn Sbaen;-y cyntaf yn Callela, allan yn yr awyr agored, fel rhan o wyl gerddorol y dref honno, yna canu a pherfformio mewn adfeilion castell gyda'r hwyr, gyda channoedd o bobl yn aros i wrando a gwylio, a'r uchafbwynt yn sicr oedd y cyngerdd yn yr Eglwys Gadeiriol yn Barcelona-perfformiad a phrofiad a fydd yn aros yn hir iawn yn y cof.

Yn ogystal â'r côr, fe gafwyd perfformiad cerddorol a safonol iawn gan y band pres-criw bywiog a thalentog, yn amlwg yn mwynhau pob profiad cerddorol. Hefyd, hyfryd oedd clywed unawdau lleisiol ac offerynnol o'r safon uchaf, Benjamin Phillips ar y piano, Daniel Trodden ar y tiwba, Heledd Havard ar y ffidl, Samantha Lloyd a'i llais unigryw a thriawd harmoniol swynol dros ben Gemma, Nia a Heledd. Diolch i bawb a weithiodd mor galed, gan gynnwys ein cyfeilyddion o fri.

Ond fe gafwyd digon o amser hefyd i fwynhau ac ymlacio! Ambell brynhawn ar y traeth neu yn y pwll a oedd dros y ffordd i'r gwesty. Fe gawsom ddigon o gyfle i fynd i weld rhyfeddodau Barcalona- Las Ramblas, y La Sagrada Familia enwog, Stadiwm y Gemau Olympaidd, ac wrth gwrs Nou Camp- mi roedd y bechgyn wrth eu bodd yng nghartref Peldroed Barcelona. Na chi le! Yr uchafbwynt i nifer oedd ein diwrnod yn y 'Waterworld'- ac mi roedd nifer ohonom fel pysgod. Po fwyaf uchel a hir ac erchyll oedd y reid dwr, gore i gyd!

Mae pawb yn dal i siarad am y daith hon! Taith na wnawn ni byth ei hanghofio- criw da, gyrrwyr ardderchog, cyngherddau safonol, tywydd grêt ac athrawon?-wel, y gorau! A allwn ni roi ein henwau nawr ar gyfer yr un nesaf?!

**Criw Barca.**




*Perfformio yn Eglwys Gadeiriol Barcelona*

**Llongyfarchiadau!**



*Mrs Carys Burston gyda'i mam Mrs Siwsi Evans*

- i Mrs Carys Burston o adran Ddrama Glantaf ar ennill ei gradd Meistr.
- i'r disgyblion llwyddiannus yng Nghystadleuaeth Fathemateg y Gymdeithas Wyddonol. Roedd 1001 o gystadleuwyr o 24 ysgol yng Nghymru. Dyfarnwyd 124 o dystysgrifau ar gyfer ymgeiswyr a gyrhaeddodd safon uchel a llwyddodd 16 disgybl o Ysgol Glantaf i ennill un o'r tystysgrifau yma. Roedd dau ddisgybl, Bethan Williams a Geraint Davies ymhlith yr 11 ymgeisydd a gyrhaeddodd safon uchel iawn.
- i fyfyrwyr ac athrawon yr ysgol ar ganlyniadau clodwiw: Safon A, 20 pwynt cyfartalog, ymhlith uchaf yn yr ardal; TGAU, 53 pwynt cyfartalog, ar y brig yng Nghymru; TCA, llwyddiant 100%. Dyma her i fyfyrwyr eleni!
- i Jenny Heap a Rhian Milne ar ennill rownd gyntaf Cystadleuaeth Ddadlau Banc Julian Hodge i Ysgolion Cymru. Dymunwn yn dda iddynt yn y rownd nesaf a gynhelir yng Ngregynog.



Criw Ysgol Glantaf ym Marcelona



*Rhai o'r chwythwyr ar y daith*

## Borneo

Wrth i ni, 27 disgybl a 6 athro gychwyn ar ein taith i Borneo roedd dros flwyddyn a hanner o aros wedi dod i ben. Ar ôl 14 awr o deithio cyrhaeddon ni'r wlad yn flinedig ac ychydig yn bryderus ynglyn â'r hyn oedd o'n blaenau. Fe fyddai'r daith yma yn gyfle i bob aelod o'r grwp gyfrannu'n unigol a chyd-dynnu dan y straen o fod yn ddieithr mewn gwlad dramor.

Fe'n rhannwyd yn dri grwp a phob un ohonom â thaith wahanol o'n blaenau. Er hyn ar adegau cawsom gyfle i gwrdd â'n gilydd a rhannu ein helyntion a'n hanesion.

Roedd yn fraint i brofi diwylliant a thraddodiadau a oedd mor wahanol i'n rhai ni, ac fe'n synnwyd i gyd gan y cynhesrwydd a dderbynion ni gan y bobl frodorol.

Yn fuan ar ôl cyrraedd cawsom gyfle i ymweld â rhai o ogofau enwog Borneo. Yno fe ddysgon ni am rai o draddodiadau'r ardal. 'Roedd dotiau bach o olau wedi eu gwasgaru ar doeau'r ogofau a oedd rhyw 300 troedfedd o'r llawr. Ar ôl holi fe ddarganfyddon ni mai dynion oedd rhain oedd yn casglu nythod adar. Mae'r dynion yma yn gwerthu'r nythod i'r Sineaid sydd yn eu defnyddio i wneud cawl arbennig. Hefyd fe welon ni hen ddarluniau a oedd wedi cael eu peintio ar furiau'r ogofau a oedd wedi bod yno ers miloedd o flynyddedd.

Fe dreulion ni bedwar diwrnod yng nghwmni pentrefwyr Pa Umor, pentref o oedd wedi'i leoli yng nghanol y jyngl, yn helpu i atgyweirio'r ffordd o'r maes awyr i'r pentref a chlirio darn o dir er mwyn creu dalfa ddwr. 'Roedd hefyd yna gyfle i ddysgu rhai o ddulliau hela traddodiadol y pentrefwyr. Roedd pob un ohonom yn awyddus i helpu'r pentrefwyr gan eu bod nhw wedi bod mor garedig i ni, yn ein bwydo a'n diddanu. Ar ein noson olaf cawsom ni gyfle i ddiolch i'r pentrefwyr drwy ganu, dawnsio a chynnig anhregion o lyfrau i'r plant. Ceisiodd y pentrefwyr ddysgu dawns draddodiadol yr ardal i ni ond ni chawsom lawer o hwyl arni!

Wrth i ni agosau at ddiwedd ein taith roedd un her yn dal o'n blaenau, yr her o ddringo Mynydd Kinabalu sy'n 4101 metr o uchder. Ar ôl diwrnod caled o gerdded ac ychydig oriau o gwsg roedd rhaid codi'n fore er mwyn cyrraedd y copa cyn toriad gwawr. Roedd dilyn y fflach-lampau o'n blaenau fel dilyn llwybr o ganhwyllau trwy'r tywyllwch. 'Roedd dringo'r mynydd yn gamp aruthrol i bawb ac yn her bersonol i bob un ohonom. Mae'n amhosib cyfleu ein teimladau wrth i ni weld yr haul yn codi dros un o'r golygfeydd hyfrytaf.

Wrth ddychwelyd, er ein bod wedi blino, roeddem i gyd yn ymwybodol ein bod wedi cael profiad y byddem yn ei drysori am byth. Ar ran y grwp fe hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth y daith fythgofiadwy i Borneo'n bosib.

**Helen Davies**



*Concro Mynydd Kinabalu!*

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

CAERDYDD a'r Fro

**Urdd 2001**

MAI 28 - 2 MEHEFIN

### Y DIWEDDARAF....

Gyda'r flwyddyn 2000 yn dirwyn i ben a holl gyffro'r 'mileniwm newydd' wedi diffodd, braf iawn yw cael rhywbeth i'n gwefreiddio ac i edrych ymlaen iddo yn 2001. Wedi dweud hynny, mae troad y flwyddyn yn sicr o ddychryn nifer o drigolion Caerdydd a'r Fro am y rheswm syml mai ar Ionawr y cyntaf, dim ond un wythnos ar hugain fydd cyn cychwyn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Caerdydd a'r Fro - Prifwyl Ieuenctid Mwyaf Ewrop ym Mhrifddinas Cymru a'r Fro, Mai 28 - 2 Mehefin.

Mae'r codi arian ar ei anterth gydag amrywiaeth eang o weithgareddau cyffrous yn cael eu trefnu'n wythnosol - nosweithiol hyd yn oed! I rai unigolion mae'n siŵr, anodd iawn yw dod o hyd i noson rydd yn eu dyddiaduron o nawr tan fis Ionawr. Yn ddi-os, ynghlwm wrth yr holl ymdrechion codi arian mae creu ymwybyddiaeth a chael hwyl a sbri - y tri mor werthfawr â'i gilydd i lwyddiant yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf.

Gyda'r Nadolig yn agosáu, mae'n addas sôn am ymdrechion un ferch fach pum mlwydd oed i ymuno yn y gweithgareddau, sef Elin Barrett o Ysgol Gynradd Parc y Rhath. Ddiolch i dalent artistig Elin, mae cardiau Nadolig yn prysur cael eu gwerthu ar hyd a lled y Brifddinas a'r Fro. Ceir dau gynllun sy'n gwneud defnydd clyfar o logo swyddogol Eisteddfod 2001- y dwylo gwyrdd a neges dwyieithog tu mewn. Mae'n debygol fydd pawb yn danfon ac yn derbyn yr un cardiau Nadolig eleni!

Yn aros ar bwnc celfyddydol, y rheini ohonoch sy'n hoff o syrffio'r we, byddai o fudd i chi ymweld â www.urdd.org/celf. Dyma gwefan newydd sbon Adran Gelf Dylunio a Thechnoleg Eisteddfod Caerdydd a'r Fro 2001 a lansiwyd yn Neuadd Llanofer, Treganna ar Dachwedd 3ydd a sy'n llawn syniadau i ysbrydoli bobl ifanc rhwng 4-25 oed i gystadlu yng nghystadleuthau CDT 2001. Am y tro cyntaf erioed, cynhelir cystadleuaeth ar y we ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, sef cystadleuaeth 'Creu Gwefan' i gynllunio cyfres o hyd at 5 tudalen we yn adlewyrchu'r teitl ' Allan o'r gorffennol y daw ein dyfodol'. Noddir y gystadleuaeth hon gan BT sydd wedi bod yn noddi'r Eisteddfod ers 1987. Ymysg y rhai'n bresennol yn y lansiad oedd Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod 2001, Huw Llywelyn Davies, Dave Edwards, Rheolwr Materion Corfforaethol a Chymunedol Cymru BT, Jenny Randerson AC, Owen John Thomas AC a nifer o blant blwyddyn 8 Ysgol Gyfun Plasmawr.

Prin fyddai'r un ohonom yn anghytuno bod y tywydd wedi bod yn erchyll yn ddiweddar ond yn ystod gwynt a glaw di-dor, cynhaliwyd diwrnod golff bythgofiadwy yng Nghlwb Golff Radyr ac er gwaetha'r ffaith fod y cwrs o dan ddŵr, llwyddodd 18 allan o'r 24 tîm orffen y rownd. Gareth Edwards a Clive Rowlands oedd yn cyflwyno'r gwobrau y noson hynny - noson y bu'n llwyddiant ysgubol o dynnu coes a hel atgofion. Y farn unfrydol oedd bod y diwrnod wedi bod yn un i'w drysori er y 'monsŵn' a ddaeth dros Radyr!

Dim ond blas sydd yma o'r math o weithgareddau sy'n cael eu trefnu, a'r hwyl a llwyddiant mae pwyllgorau Caerdydd a'r Fro yn ei gael o ddenu pawb at eu gilydd i gefnogi'r Brifwyl y flwyddyn nesaf. Am fanylion pellach ynglŷn â'r amrywiol weithgareddau sydd ar y gweill neu os am ymuno yn hwyl y trefnu a'r paratoi, cysylltwch â Swyddfa'r Urdd Llanelli 01554 880 890.

Enillydd cwis pwyllgor Llefaru a Drama Eisteddfod yr Urdd 2001 oedd Stella Jones.

## CALENDR O DDIGWYDDIADAU HYRWYDDO EISTEDDFOD CAERDYDD A'R FRO 2001

**Rhagfyr**

**Mawrth 12 -** **Ffilm *Titus*** - Canolfan Celfyddydau Chapter 5.45 pm. Tocynnau £5.00 - 2070 4965 Pwyllgor Apêl Penarth

**Iau 14 -** **Cyngerdd gyda Chantorion Creigiau ac eraill** - Canolfan Celfyddydau Chapter 5.45 pm. Tocynnau £5.00 - 2070 4965 P Apêl Penarth

**Sul 17 -** **Canu Carolau** - Eglwys Newydd

**Mawrth 19 -** **Sioe Gerdd Nadolig - 'Yr Academi'** Ysgol Gyfun Plasmawr 2040 5499

**Ionawr 2001**

**Llun 8 -** **Noson yn nhŷ Hywel Jeffries**

**Sul 14 -** **Noson bwyd Indiaid** Y Mugahl, Y Bontfaen - Janet Davies, Prysg

**Gwener 26 -** **Dawns Santes Dwynwen** Apêl Creigiau, Pentyrch, Gwaelod y Garth

**Chwefror**

**Iau 1 -** **Cwis Chwaraeon rhwng y pwyllgorau apêl** Insole Court

**Mawrth**

**Gwener 2 -** **Twmpath Dawns gyda blas Gwyddelig** Clwb Trydan, Pwyllgor Dawnsio Gwerin

**Gwener 9 -** **Sioe Ffasiwn** Apêl Creigiau, Pentyrch, Gwaelod y Garth

**Sadwrn 10 -** **Dawns Pwyllgor Apêl Gogledd Caerdydd** Castell Caerffili

**Gwener 23 -** **Dawns Wanwyn** Neuadd Goffa'r Barri P Apêl Y Barri

**Ebrill**

**Sul 1 -** **Cymanfa Ganu** Apêl Creigiau, Pentyrch, Gwaelod y Garth

**Gwener 11 -** **Mordaith o gwmpas Bae Caerdydd** Pwyllgor Apêl Penarth

**Mawrth** **Talwrn y Beirdd** Pwyllgor Llenyddiaath

**Mawrth/Ebrill** **Diwrnod Golff** - Clwb Golff Creigiau Apêl Creigiau, Pentyrch, Gwaelod y Garth


### Sain yn Safeway

Lansiwyd cynllun arbennig rhwng Recordiau Sain a Phencadlys Archfarchnad Safeway i gyflenwi cynnyrch Cymraeg i wyth o ganghennau'r archfarchnad yng Nghymru, gan gynnwys y gangen yn Llanisien. Bydd y cangennau hyn yn gwerthu fideos a cherddoriaeth gan Sain, ynghyd â llyfrau gan Wasg Carreg Gwalch a Gomer, fel rhan o'r cynllun.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU**

CAERDYDD
a'r Fro
Urdd 2001

Prynwch eich Cardiau Nadolig nawr!



**Ci Diog**

Mae'r tîm o'r rhaglen deledu, Sgwadnewyddu, yn paratoi am gyfres newydd ac yn chwilio am help i helpu cymunedau led led Cymru.

Unwaith eto mi fydd y criw yn trawsnewid adeiladau cyhoeddus o bob math - a hynny mewn ffordd hwyliog a chyffrous.

Ym mhob lle bydd byddin o wirfoddolwyr yn ymuno a chriw y Sgwadnewyddu i gyflawni'r gwaith yn erbyn y cloc.

Oes yna rhywle addas yn eich ardal chi, adeilad sydd wedi gweld dyddiau gwell ac sydd angen cael bywyd newydd?

Gadewch i ni wybod ac efallai gall y Sgwadnewyddu, dan arweiniad Caryl Parry Jones, ddod draw i drawsnewid adeilad sy'n bwysig i'ch ardal chi.

Cysylltwch â chwmni teledu Ci Diog,
169 Kings Road, Tregana, Caerdydd CF11 9DE
neu ffoniwch 029 20665050.


CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NOFEL Y MIS



Wyt ti wedi darllen Nofel y Mis?

## Ysgol Gyfun Plasmawr

**Dewch i sioe gerdd gyntaf yr ysgol!**






**Llun-Mercher 18-20ed o Ragfyr 2000**
**yn neuadd yr ysgol**

*Tocynnau ar werth yn yr ysgol -*
*£5.00 Oedolion*
*£3.00 Plant / Gostyngiadau*

**Ffôn: 029 2040 5498**

*Lluniaeth ysgafn ar gael*

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL DINBYCH A'R CYLCH

5 - 10 Awst 2001

Aros yng Ngwesty'r Beaufort Park

5 noson Cinio, gwely a brecwast

**£249.00 yr un**

Cludiant ddwy ffordd o Gaerdydd

Cewch eich trosglwyddo yn ddyddiol i Faes yr Eisteddfod ble fydd ein staff ar ein stondin yn barod i'ch croesawu.

Am fwy o fanylion cysylltwch â: Seren Arian
13 Y Maes, Caernarfon LL55 2NF
Ffôn: 01286 672333

Cwsmeriaid Presennol - Capel Crwys

## Talon Cymru Cyf.

Angen cyfrifiadur neu feddalwedd?
I'r plant / cartref / busnes / swyddfa?


Am gyngor anibynnol
a gwasanaeth proffesiynnol

Ffôn 029 2055 5978

e.bost Wyn.Talon@BTinternet.com

## *Siop y Felin*

Llyfrau • Cardiau • Casetiau
Disgiau Cryno • Fideos


Uned 3, Tŷ Codas,
54-60 Heol Merthyr,
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd.

Ffôn/Ffacs: 029 20 692999

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

PRISIAU RHESYMOL

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**
neu **0468 973229**

## AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

**Geraint B. Llewelyn**
LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED,
CAERDYDD, CF23 6PA
FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORICHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
02920 408800






dan evans

de

Siôp Aml Adran y Barri
01446 410410





*dewch i'n gweld!*



Cosb oedd cwympo mewn cariad





*Solomon & Gaenor*

GYDAG IOAN GRUFFUDD A NIA ROBERTS

**8.30**
**Dydd Nadolig**
TRANSL888/889
www.s4c.co.uk

S4C